

**Comisiwn Ffiniau i Gymru**

**Adroddiad Blynyddol 2016/17**



**Comisiwn Ffiniau  
i Gymru**

**Boundary Commission  
for Wales**

© Hawlfraint y Goron 2017

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)  
Hawlfraint y Goron 2017



# **COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

## **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17**

**Medi 2017**

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Tŷ Hastings  
Llys Fitzalan  
Caerdydd  
CF24 0BL  
Ffôn: +44 (0)29 20464819  
Rhif Ffacs: +44 (0)29 20464823  
E-bost: [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)



# Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	2
Amcanion	5
Canlyniadau	6
Cyllideb a Gwariant	9
Rhaglen Waith ar gyfer 2017/18	11

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17.

Roedd y prif weithgareddau yn ystod 2016-17 yn ymwneud ag arolwg 2018 o etholaethau seneddol, y cyhoeddom ei ddechrau'n ffurfiol ar 23 Mawrth 2016. Cyhoeddom ein cynigion cychwynol ym mis Medi 2016 ac yn ystod y cyfnod ymgynghori dilynol derbyniom nifer o gynrychiolaethau buddiol a llawn gwybodaeth. Bydd y cynrychiolaethau cychwynol, ynghyd â'r rheiny a dderbyniwyd gennym yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017, yn llywio ein hystyriaeth o newidiadau posibl i'n cynigion cychwynol. Disgwylwn gyhoeddi canlyniad ein hystyriaeth yn yr hydref 2017.

**Yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lewis**  
**Dirprwy Gadeirydd**

# 1. Cyflwyniad

## Y Noddwr

- 1.1** Corff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Swyddfa'r Cabinet yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol yw eu cyflwyno gerbron y Senedd. Lle bo'r adroddiad yn argymhell bod angen gwneud addasiadau i ffiniau etholaethau Seneddol, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyflwyno copi drafft o Orchymyn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd, er mwyn dod ag argymhellion y Comisiwn i rym. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r Ysgrifennydd i'r Comisiwn (gweler Aelodaeth isod).

## Y Comisiwn

- 1.2** Mae'r Comisiwn wedi'i sefydlu o dan adran 2 ac atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Corff annibynnol, anwleidyddol a chwbl amhleidiol ydyw. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac ni chaiff effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol eu hystyried.
- 1.3** O 1 Ionawr 2002, mae swyddogion Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC)<sup>1</sup>, a leolir yng Nghaerdydd, wedi staffio Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau hefyd. Er bod adeiladau a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol i'w gilydd.

## Aelodaeth

- 1.4** Siaradwr Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Siaradwr yn pwysleisio annibyniaeth, amhleidioldeb a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Siaradwr yn cyfrannu o gwbl at gynnal arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: sef, yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lewis. Yr Aelodau yw Mr Paul Loveluck a'r Athro Robert M<sup>c</sup>Nabb.
- 1.5** Caiff y Comisiynwyr eu penodi'n rhan-amser a byddant yn cyfarfod pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn gofyn am hynny. Ers pasio Deddf y Comisiwn Ffiniau 1992, mae Aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy Gadeirydd) wedi cael ffi ddyddiol y cytunir arni gan yr Adran Nawdd gyda

---

<sup>1</sup> Newidiwyd yr enw o'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.



Thrysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer gwaith a wneir ar ran y Comisiwn a chyda'r Dirprwy Gadeirydd, ac mae ganddynt hawl i adennill unrhyw dreuliau (megis costau teithio a chynhaliaeth) yr eir iddynt yng ngwaith y Comisiwn.

- 1.6** Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau, sy'n cael eu diweddarau bob blwyddyn. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.
- 1.7** Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un o'r rhain yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegydd Gwladol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Mae dirprwyon dynodedig yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn.
- 1.8** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn. O dan drefniadau'r Ysgrifenyddiaeth ar y cyd, mae'r Ysgrifennydd, Mr Steve Halsall yn Brif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru hefyd.
- 1.9** Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr wrth gynnal eu harolygon a gwneud eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithio yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth CFfDLC yng Nghaerdydd a chysylltir â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â staffio ac adeiladau. Mae'r berthynas weithio hon yn dod o dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau Gomisiwn a'u cyrff noddi priodol.

### **Dyletswyddau Statudol**

- 1.10** Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.11** Gwnaeth Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol.
- 1.12** Roedd y Ddeddf yn dileu'r cysylltiad rhwng yr etholaethau Seneddol ac etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd. Effaith hyn, nes y rhoddir deddfwriaeth newydd yn ei lle, yw diffyg unrhyw fecanwaith ar gyfer arolygu etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rheolaidd.
- 1.13** Fe wnaeth Deddf Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu 2013 ddiwygio Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Newidiodd hyn y dyddiad pan fydd rhaid i'r Comisiwn adrodd ei argymhellion i'r Senedd o 'cyn 1 Hydref 2013' i 'heb fod cyn 1 Medi 2018 a chyn 1 Hydref 2018'.

## 2. Amcanion

### Amcan Cyffredinol

**2.1** Parhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru<sup>2</sup> yn barhaus.

### Amcanion Penodol ar gyfer 2016/17

**2.2** Dyma oedd yr amcanion ar gyfer y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17:

- Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2016, cyhoeddi 'Canllaw i Arolwg 2018' ffurfiol y Comisiwn, yn amlinellu'n fanwl y ddeddfwriaeth, y weithdrefn a pholisïau'r Comisiwn ar gyfer cynnal yr arolwg;
- Erbyn diwedd mis Gorffennaf, sicrhau penodiad nifer addas o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn gyda'i waith, yn enwedig mewn perthynas â chadeirio gwrandawiadau cyhoeddus ac asesu ymatebion i gynigion y Comisiwn ar gyfer etholaethau newydd;
- Erbyn diwedd mis Awst 2016, datblygu'r holl ddogfennaeth copi caled ac electronig ar gyfer cyhoeddi'r cynigion cychwynnol;
- Erbyn diwedd mis Awst 2016, wedi datblygu'n llawn, a chynnal prawf ar-lein, o'r porth ymgynghori yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer y cyfnod ymgynghori cychwynnol, ynghyd â haenau o ddata ar gyfer ffiniau a nifer etholwyr presennol ar gyfer rhanbarthau, awdurdodau lleol, wardiau a dosbarthiadau etholiadol;
- Datblygu cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau newydd i'w cyhoeddi ym mis Medi 2016;
- Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016, cynnal ymgynghoriad statudol 12 wythnos cynhwysfawr ar y cynigion cychwynnol, gan gynnwys y gwrandawiadau cyhoeddus gofynnol ym mhob rhanbarth o Gymru;
- Erbyn diwedd mis Ionawr 2017, cyhoeddi'r 'Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd' statudol, y mae'n ofynnol i'r Comisiwn ei ddarparu i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin, yn rhoi diweddariad ar gynnydd gydag arolwg byw;
- Erbyn diwedd mis Mawrth 2017, wedi paratoi i'w cyhoeddi yr holl ymatebion ysgrifenedig a llafar a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynigion cychwynnol; ac
- Yn ystod y flwyddyn, bydd y Comisiwn yn ceisio cynnal tri chyfarfod ffurfiol i asesu cynnydd gyda'r Arolwg, a bydd hefyd yn cael ei gynrychioli yng Nghyfarfod Blynyddol Comisiynau Ffiniau'r DU.

---

<sup>2</sup> Gweler paragraff 1.12

## **Cynllun Iaith Gymraeg**

- 2.3** Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd pob dogfennaeth swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 3. Canlyniadau

### Llyfryn Gwybodaeth

- 3.1** Cyhoeddwyd Canllaw i'r Arolwg 2018, yn nodi manylion y ddeddfwriaeth, y weithdrefn a pholisïau'r Comisiwn ar gyfer cynnal yr arolwg, ar 28 Mehefin 2016.

### Comisiynwyr Cynorthwyol

- 3.2** Ar y cyd â Swyddfa'r Cabinet, gwnaed trefniadau i dri Chomisiynydd Cynorthwyol gael eu penodi o 1 Medi 2016 yn dilyn proses recriwtio. Penodwyd pedwerydd Comisiynydd Cynorthwyol wrth gefn rhag ofn y ceir absenoldeb annisgwyl yn ystod cyfnod y gwrandawladau cyhoeddus.

### Cynigion Cychwynnol

- 3.3** Cytunwyd ar Gynigion Cychwynnol gan y Comisiwn mewn cyfarfod ym mis Mai 2016. Drafftwyd Adroddiad Cynigion Cychwynnol ac fe'i cytunwyd mewn cyfarfod yng Ngorffennaf 2016. Cyhoeddwyd y Cynigion Cychwynnol ar 13 Medi 2016 ar yr un diwrnod ag y cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Loegr ei gynigion cychwynnol yntau. Arweiniodd y lansiad hwn ar y cyd, mewn cydweithrediad â'r gwaith a wnaed gan ein contractwyr cysylltiadau cyhoeddus, Working Word, at lefel uwch o ddiddordeb yn y cyfryngau o gymharu â'r arolwg blaenorol.

### Porth Ymgynghori

- 3.4** Datblygwyd y porth ymgynghori ar-lein, sef prosiect ar y cyd â'r Comisiwn Ffiniau i Loegr â'r Comisiwn Ffiniau i'r Alban, gyda'r contractwr dethol, Informed Solutions, i baratoi ar gyfer dechrau'r cyfnod ymgynghori cychwynnol.

### Ymgynghoriad Cychwynnol

- 3.5** Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori 12 wythnos cychwynnol o ddyddiad cyhoeddi ein Cynigion Cychwynnol ar 13 Medi 2016 hyd nes 5 Rhagfyr 2016. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd y Comisiwn 503 o

gynrychiolaethau ysgrifenedig. Gan ystyried y deisebau a dderbyniwyd, roedd hyn yn cynrychioli barnau 1,277 o unigolion. Yn ystod Hydref a Thachwedd 2016, cynhaliwyd gwrandawiadau cyhoeddus mewn pum lleoliad ar hyd a lled Cymru: Caerfyrddin, Bangor, Caerdydd, Llandrindod a Wrecsam. Siaradodd cyfanswm o 76 o unigolion yn y gwrandawiadau cyhoeddus hyn.

### **Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd**

**3.6** Yn Ionawr 2017, cyflwynodd y Comisiwn Adroddiad Cynnydd i'r Senedd ar yr Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru fel y mynnir gan y ddeddfwriaeth.

### **Ail Ymgynghoriad**

**3.7** Cafodd yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a'r trawsgrifiadau o'r gwrandawiadau cyhoeddus eu prosesu a'u cyhoeddi ar 28 Chwefror 2017 ar borth ymgynghori'r Comisiwn. Nododd hyn ddechrau'r ail gyfnod ymgynghori a aeth ymlaen hyd nes 27 Mawrth 2017. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori hwn, derbyniwyd 289 yn rhagor o gynrychiolaethau.

### **Cyfarfodydd**

**3.8** Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol. Cyfarfu dau Gomisiynydd a'r Ysgrifennydd hefyd â chydweithwyr o Gomisiynau Ffiniau eraill y DU ym mis Rhagfyr 2016 i drafod datblygiadau newydd a rhoi gwelliannau gweithredu ar waith. Yn ogystal, fe wnaeth dau Gomisiynydd fynychu gwrandawiadau cyhoeddus fel sylwedyddion.

### **Yr Iaith Gymraeg**

**3.9** Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Comisiwn ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg.

### **Hyfforddiant**

**3.10** Mae cyrsiau hyfforddi y mae'n ofynnol i aelodau staff eu mynychu wedi parhau eleni, ac yn cynnwys: Ymdrin â Chwynion, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Codi a Chario, Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, Llwybr Mynediad Cymraeg,

Cyflogres, Rheoli Cyfleusterau, Excel, Datblygu Cynaliadwy, Rheoli Perfformiad, Rheoli Prosiectau, Sgiliau Cyllid a hyfforddiant ar y Feddalwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol. Mae hyfforddiant yn y Gymraeg wedi'i roi ar sail anffurfiol i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'r holl aelodau staff.

## **Gwybodaeth**

**3.11** Mae'r Comisiwn yn trefnu bod gymaint o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ag sy'n ymarferol drwy'r wefan ([www.bcomm-wales.gov.uk](http://www.bcomm-wales.gov.uk)) a'r porth ymgynghori ([www.bcw2018.org.uk](http://www.bcw2018.org.uk)). Ymatebir i geisiadau am wybodaeth nad yw ar gael ar y wefan. Mae gan y Comisiwn darged o 15 diwrnod i ymateb i'r cyfryw geisiadau. Yn 2016-17 derbyniom 15 cais am wybodaeth, ac ymatebwyd i bob un ohonynt cyn pen 15 diwrnod. Mae hyn yn cymharu â 24 cais a dderbyniwyd yn 2015-16.

## 4. Cyllideb a Gwariant

### Gwariant Ebrill 2016 hyd at Fawrth 2017

4.1 Mae Tabl 1 yn cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb, yn ystod y flwyddyn ariannol y mae a wnelo'r adroddiad hwn â hi.

**Tabl 1 – Cyllideb a Gwariant**

<b>Elfen Gyllideb</b>	<b>Cyllideb (£)</b>	<b>Gwirioneddol (£)</b>
Cyflogau Staff	165,100	165,100
Ffioedd Comisiynwyr a Chomisiynwyr Cynorthwyol	57,000	35,870
Adeilad y Swyddfa	31,000	26,954
Teithio a Chynhaliadaeth	13,000	12,549
Lletygarwch	400	211
TG a Thelathrebu	46,000	44,194
Costau Arolygon Eraill*	187,500	120,961
<b>Cyfanswm</b>	<b>500,000</b>	<b>405,839</b>

\* yn cynnwys costau cyfryngau a hysbysebu, hyfforddiant, postio, argraffu a chyfieithu.

4.2 Mae Tabl 1 yn dangos, ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17, bod y Comisiwn Ffiniau wedi tanwario £94,161 ar ei gyllideb. Y prif resymau am y tanwariant hwn oedd:

- Roedd y costau Cyfryngau a Hysbysebu gryn dipyn yn llai yn sgil penderfyniad y Comisiwn i beidio â rhoi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynigion Cychwynnol a Gwrandawiadau Cyhoeddus. Yn lle hynny, defnyddiodd y Comisiwn gyfryngau hysbysebu digidol yn y prif gyfryngau yng Nghymru, fel Wales Online, ynghyd â hysbysebu ar y radio a'r cyfryngau cymdeithasol sy'n hyrwyddo.
- Roedd Ffioedd y Comisiynwyr yn llai am y cynhaliwyd llai o gyfarfodydd yn sgil adolygu a chytuno ar waith yn electronig.

### Ffioedd a Threuliau Aelodau

4.3 Yn ystod 2016-17 hawliwyd y ffioedd a'r treuliau canlynol gan Aelodau'r Comisiwn:

<b>Aelod</b>	<b>Ffioedd</b>	<b>Treuliau</b>
Mr P Loveluck	£6,066	£537
Yr Athro R McNabb	£3,033	£159

## 5. Rhaglen Waith ar gyfer 2017/18

**5.1** Fel y mynnir gan y ddeddfwriaeth, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cynnal arolwg o etholaethau Seneddol. Amcanion penodol y Comisiwn yn 2017/18 fydd:

- Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017, derbyn adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ac ystyried argymhellion yr adroddiad ar y cyd â'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori;
- Erbyn diwedd mis Hydref 2017, os yw'n briodol, cyhoeddi adroddiad Cynigion Diwygiedig.
- Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017, os yw'n briodol, wedi cynnal ymgynghoriad statudol 8 wythnos cynhwysfawr ar y cynigion diwygiedig;
- Erbyn diwedd mis Ionawr 2018, wedi cyhoeddi'r 'Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd' statudol, y mae'n ofynnol i'r Comisiwn ei ddarparu i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin, yn rhoi diweddariad ar gynnydd gydag arolwg byw;
- Yn ystod y flwyddyn, bydd y Comisiwn yn ceisio cynnal tri chyfarfod ffurfiol i asesu cynnydd gyda'r Arolwg, a bydd hefyd yn cael ei gynrychioli yng Nghyfarfod Blynyddol Comisiynau Ffiniau'r DU.
- Yn ystod y flwyddyn byddwn yn trosglwyddo o'r Cynllun Iaith Gymraeg i fabwysiadu a gweithredu Safonau'r Gymraeg;
- Erbyn diwedd mis Mawrth 2018, bydd gwaith yn cael ei wneud i gyfnerthu'r trefniadau hirdymor ar gyfer adeilad y Comisiwn;
- Erbyn diwedd mis Mawrth 2018, sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer darpariaethau TG y Comisiwn yn y dyfodol.

### Cyllideb

**5.2** Er mwyn galluogi cyflawni'r amcanion a restrwyd yn 5.1 uchod, dyrannwyd cyllideb o £270,000 i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.



